

W435. S. 110

# GALARGERDD

AM

RHYS JONES, YSWAIN,

LLYSHENDY, GER LLANDILO FAWR, GYNT O  
DOLCOED HOUSE, LLANWRTYD.

GAN

D. MORGAN

(MATHRYDAN).

CAERFYRDDIN:

ARGRAFFWYD GAN EVANS A JONES, SWYDDFA'R "EXPRESS."

1874.

PRIS 2g.

# GALARGERDD

AM

RHYS JONES, YSWAIN,

LLYSHENDY, GER LLANDILO FAWR, GYNT O  
DOLCOED HOUSE, LLANWRTYD.

GAN

D. MORGAN

(MATHRYDAN).

CAERFYRDDIN:

ARGRAFFWYD GAN EVANS A JONES, SWYDDFA'R. "EXPRESS."

1874.

X205311120

## BARN Y BEIRDD.

---

Y MAE yn llon gan yr Awdwr i fod yn alluog i osod y cymmeradwyaethau a ganlyn i'r ALARGERDD, yr hyn a'i cefnogodd i'w dwyn drwy y Wasg:—

*Beirniadaeth Mr. Mathias, Llanwrtyd.*—“Un cyfansoddiad i law, yn dwyn y ffugenw “Cwynfanus.” Gallen feddwl fod yr awdwr hwn yn dra chyfarwydd â chyfansoddi marwnadau. Y mae yn tori allan o hen lwybrau y marwnadau cyffredin ydynt yn fwy o rigymau gwirionffol nâ dim byd arall. Y mae y farwnad hon yn cynnwys y tlws, y coeth, a'r teimladol, ac erys yn hir yn goffadwriaeth deilwng o Mr. Rhys Jones, Llyshendy.”

*Parch. O. Waldo James.*—“Y mae yn amrhydedd i'w hawdwr. Y mae ynddi lawer meddylddrych gwerth gini yr un.”

*Parch. D. Onllwyn Brace.*—“Naturiol a newydd.”

*Parch. J. Evans, Glyn Nedd.*—“Da rhagorol, wir.”

*Arianglawdd.*—“Cynnwysa y peth byw.”

*Glan Afan.*—“Dechreua gyda newydd-deb.”

*Parch. J. Rowlands, Moriah, Llanelly.*—“Y mae hi yn dda iawn drwyddi i gyd. Yn llawer mwy nâ gwerth y wobr.”

*Parch. R. D. Roberts, Llwynhendy.*—“Rhagorol. Darluniadol iawn o Mr. Jones.”

Cafwyd geiriau tebyg oddiwrth y Parchm. P. Phillips, Maesycaer; W. Jones, Llangendeyrn; D. James, Porthyrhyd; D. P. Philips, Penygroes, &c., y rhai oll a adwaenent Mr. Jones.

O.Y.—Teg yw hysbysu fod yr awdwr wedi ychwanegu tri phennill yn nghylch Mr. Jones a Llanwrtyd.

## GALARGERDD.

---

O DDAEAR! a anrhegwyd di  
A phabell Jones, Llyshendy, fwyn?  
Ai am it' guddio'i wyneb cu  
Ymddyrecha'r fath alarus gwyn?  
Os rhoddaist fenthyg beth o'th glai  
I lunio dyn, 'nol talwyd di  
A llôg a chwydda yn ddirai—  
I'th goffrai â mewn cyrff o fri.

O Seion hoff! nid rhyfedd yw  
Dy weled mewn galarwisg ddu;  
Parhëir i ddryllio'th deimlad byw,  
A sugno'th *ddyfnaf* ddagrau'n llu!  
Ein *gweinidogion*, fintai fawr,  
Er's talm ddystawa angeu o hyd;  
Mewn saethu'r *cadfridogion* lawr  
'R ymddengys 'r ymgrynhôa'i fryd.

Mae megys un yn ceisio cael  
Y rhengau'n drist a maes o drefn—  
Trywanodd gewri yn ddiffael,  
Aeth saeth i fron ein Jones *drachefn!*

Nid hawdd troi'r dagrau brysiog 'nol,  
 Trwy wrthglawdd *gobaith* llifo wnant f  
 Lle gwelir llygaid *sych*, mae'u *hol*,  
 A deigrin mwy o'u mewn nis cânt!

Ni thybiodd cywrain lygaid neb  
 Ddarganfod enw Jones fel hyn  
 Yn rhestr marwolaethau; gwleb  
 Yw grudd Hanesiaeth aruthr syn;  
 Cyfeiria'i bys tua Llandyfaen,  
 Llyshendy, a Llanwrtyd lân,  
 Edrycha'n welw 'nol a blaen,  
 Rhy lwfr i nyddu galar-gân!

Dydd chwelir llwch pob Aiffiad ddaw;  
 Ond enw eneiniedig yw  
 Ei enw ef gan ddwyfol law:  
 Ei goffadwriaeth fyth fydd byw.  
 Medd letty cynhes yn ein serch —  
 Am anfarwoldeb tatalai'n ddrud,  
 Parch bletha iddo goron dderch,  
 Edmygedd hyawdl ni bydd fud.

Careg'rogof, ger Llandilo Fawr,  
 Sydd fan y ganwyd dyn o nôd,  
 A'r *man* a anwyd yr un awr  
 Yn ddewis bwnc aurenau clod.  
 Daeth mab y fferm i wybod am  
 Driniaethau amaethyddol Gras;  
 A Llandyfaen fel nefol fam,  
 Lle magwyd ef i Iesu'n was.

Yn Soar cafodd Soar well,  
 Adnabu ddiogelwch gwiw  
 Mur dwyfol dân; ca'dd hoffus gell  
 Yn "holltau'r graig;" deallai liw  
 Y gwaed yn dweyd wrth angel lliw  
 Am gadw draw er mwyn yr Oen;  
 Tan lewyrch haul y nefoedd nid  
 Oedd ef heb brofi nefol hoen.

O herwydd gwelid blodau gras  
 Yn gwenu gydag arogl hedd  
 Yn mywyd hafaidd, gwerthfawr, bras  
 Y gweithiwr Jones hyd lân y bedd;  
 Rhinweddol flodau'i oes o'n blaen  
 Wnant guddio'r bedd gauafol llwm,  
 Ac arogl cofion mwyn ar daen,  
 Yn ffloni'n fawr ei brudd-der trwm!

Sut denaf Degwch? treigla gwlad  
 Ei theimlad dwys ar ddawn y bardd,  
 Gwirionedd noeth ei fywyd mād  
 F'ai'n adroddiadol golofn hardd:  
 Ond os blodeuog oedd ei oes,  
 Rhaid cael Barddoniaeth lân ei gwedd  
 I ysgafnhau'r hiraethlon groes,  
 A phlanu blodau ar ei fedd.

Llaw dirion dda Rhagluniaeth ddoeth  
 A'i ieuodd ef â'i anwyl Ann;  
 Angyles euraidd riniau coeth,  
 Fel breichiau'n dâl ei ysbryd lân:

Ei llariaidd air fel diliau mêl,  
 Crist'nogaeth sylla yn ei threm :  
 Nef hawddgar ! rhagddi'th wên na chél,  
 Dros lili chwythodd awel lem.

Tra yn *Half Moon*, Llandilo Fawr,  
 Ei fri oedd eisoes hanner llawn,  
 Ond chwyddai, chwyddai, awr 'rol awr,  
 Fel lleuad casglai burdeb iawn,  
 Nes machlud wnaeth yn ngorwel bedd,  
 A chyfyd 'nawr a'i oleu mād  
 Yn gryfach nag erioed, ei wedd  
 Fel *haul* yn nheyrnas fawr ei Dad.

Rhys Jones oedd etholedig Ffawd:  
 Llon rifai risiau pinacl llwydd ;  
 Bu Mammon iddo megys brawd,  
 Ag aur y llanwai'i goffrau'n rhwydd,  
 Ond er y bluen hudol hon,  
 Nid Mammon welai aberth 'nol ;  
 Fe'i llosgai i Dduw â than ei fron,  
 A thaffai'i hunan idd ei gôl.

Dan wisgo delw'i fammaeth dda—  
 'R olwynaidd drefn sy'n llygaid oll—  
 Aeth i Lanwrtyd fach ; a phŵa  
 Ar bla i ymlid pla i goll  
 Fu hyn, o holl ororau'r wlad :  
 Ffynnonau'r lle'n hygloodus wnaeth,  
 Trwy ffydd ac yni, megys tad  
 I iechyd myrdd yn fuan daeth.

Pa lygad a'i edrychiad fu  
 'N cusanu agwedd dyffryn gwiw  
 Llanwrtyd baradwysaidd gu,  
 Heb wella pob pruddglwyfus friw?  
 Celfyddyd mewn priodas sydd  
 A Natur lân drwy'r chwyddol dref;  
 Gofalus fryniau'n wylwyr rhydd  
 Lefarant am eu harddwch ddydd  
 A nos wrth haul a sêr y nef!

Jones fu dechreuad elod y lle;  
 Traul dafodd â haelionus law  
 Uwch glânau'r Irfon lwyd, efe  
 Ledaenodd ei enwogrwydd draw.  
 Hebrynga Haf ei flwyddol fyrdd  
 I'r llanerech at ei rhyfedd ddwfr,  
 Ac yfant awyr bur ei ffyrdd,  
 Ac erlid ffwrdd feddyliau llwfr.

Mae olion anturiaethus law,  
 Ddiseibiant, fedrus Jones, Dolcoed,  
 Yn eglur yno; trig gerllaw  
 Yr athrylithgar Kilsby; doed  
 Tyrfaoedd fyth i'r Eden gân,  
 A'i bywiol ddwfr; Elysium byd;  
 Hiraethlon neidia'i physg i'r lan,  
 Er ceisio gwel'd ei thlynsni i gyd!

Y boreu bu Llandilo'n Ilaith  
 Yn wylo "colled" ar ei ol,  
 Cân Salem draw felusach iaith—  
 "Ennillwyd!" gwasga ef i'w chól.



Yn ddiagon y neillduodd ef,  
 A llaw a llygad harddai'r swydd  
 Nes dal y palmwydd yn y nef,  
 Nes mola'r Arglwydd ger ei wydd.

Ad-dynai ei edrychiad llon  
 A boneddigaidd serch y byd ;  
 Caredig yr ymgurai'i fron,—  
 'R oedd cydymdeimlad iddo'n gryd ;  
 Gonestrwydd ddawnsiai yn ei wedd ;  
 Didwylledd oedd ei dreimiad glân ;  
 Ei chwerthin iach wasgarai hedd ;  
 A'i air oedd gymdeithasol dân.

Mae'r dwylaw diwyd o dan glo !  
 Diogi nis adwaenai ef ;  
 Yn llaw Prydlondeb teithiodd, do,  
 I bobman hyd i ddrws y nef.  
 Mor brydlon!—nid *yfory byth!*  
 Mor obeithlawn!—nid *heddy' o hyd:*  
 Gwaith oedd ei hoff Sabbothol nyth :  
 Gwaith foddiai Dduw ; lesolai fyd.

Mab grasol Dad ; ei dirion law ;  
 Llu elent i gusanu hon  
 Yn mhell ; gwasgarai oddidraw  
 Elusen gyda bendith lon ;  
 Traed cloffion oedd, a llygaid dall,  
 Tad yr amddifad blin ei oes,  
 I'r ieuaine rhoddai gynghor call,  
 C'ai'r gwan ei ysgwydd ef i'w groes.

A gwên garedig ai i gwrdd  
 A gweision Duw, a'i ddrws ar led;  
 Croesawgar ddantaith ar ei fwrdd,  
 Adgofion cynhes! meddwl 'hed  
 At selog iau'i ffyddlondeb llawn,  
 Bedyddiwr bedyddiedig Ffydd;  
 Tlws deml fach Llanwrtyd gawn  
 Yn adail gofiai'i glodydd rhydd.

O, Bontbrenaraeth! beth wnei di?  
 Duw sydd a'i ffyrdd yn nyfnder môr;  
 Ond ffordd wnaeth drwy y môr a'i li'  
 I'w bobl; trodd hwy'n hwyfus gôr!  
 Drist Israel! medr ro'i dw'r o'r graig!  
 Dyd angel glân mewn hagr fedd!  
 Medr lwyddo'i saint drwy lid y ddraig!  
 Medr droi marwolaeth Jones yn hedd!

Fel Dafydd heb ei deml i'r lân!  
 Rhyw Solomon â Seion fach  
 Ddaw fyny; ar Dduw ymdafla'r gwan,  
 A thyfu wnai yn gryf ac iach.  
 Doed deuparth ysbryd Jones i lawr  
 Ar aml i Eliseus drwy'r wlad,  
 Dysgwyliwn am y fantell 'nawr,  
 Tra llefain wnawn "Ein tad! ein tad!!"

Llyshendy! rhaid fod gwagder sur  
 Yn frenin rhwng dy furiau cain,  
 Heb wedd Rhys Jones; ond gwynfyd pur  
 Fed ef, heb efrau fyth na drain;

Angylaidd gerbyd gafodd ef  
 O wres Cymmanfa Rhandirmwyn  
 I fythol wledd cymmanfa'r nef,  
 Lle nad a'n glaf, lle nad oes cwyn.

Oedd lawen ar rawnsypiau'r wlad ;  
 Ei Bisgah fu'r gymmanfa wiw,  
 Dwfn yfid gan ei galon fâd  
 O ysbryd santaidd, dedwydd Duw.  
 Cryf ydoedd *hi*, ond gwan ei gnawd :  
 Ad-dyniad grymus pethau'r nef  
 Wna'i gorff *oedd* gryf o'i nerth yn dlawd,  
 Ei ysbryd fry sugnasant ef.

Os ciliodd ei amenau tân,  
 A'i fflamlyd hwyl o gyrddau'r saint ;  
 Fry seinia anthem felus, lân,  
 Y nefol, fythol, gwrdd heb haint.  
 Adgyfyd *corph* barhâ yn gryf  
 O fynwent Soar, 'nawr sy'n wyw,  
 All ddâl gogoniant nef yn hyf ;  
 O'r gweddnewidiad uchod yf  
 Fôr o fwynhad dan wenau Duw !.